

Gydraddoldeb

yng Nghymru

Templed Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb - Rhan 1

Teitl y polisi a'i ddiben (amlinelliad cryno):	Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru)
Enw'r swyddog:	Tîm Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru)
Adran:	Cadw
Dyddiad:	14 Ionawr 2015
Llofnod:	

1. **Rhowch ddisgrifiad cryno o'r polisi/penderfyniad. (Er enghraifft, beth yw amcan cyffredinol y polisi/penderfyniad, beth yw'r nodau a bennwyd (yn cynnwys pwy yw'r buddiolwyr arfaethedig), disgrifiad bras o sut y cyflawnir hyn, beth fydd yn mesur llwyddiant, a'r amserlen ar gyfer cyflawni hyn?)**
 - 1.1 Ymrwymodd y Rhaglen Lywodraethu, sef cynllun strategol pum mlynedd Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd yn 2011, i gyflwyno 'Bil Gwarchod Treftadaeth' fel dull canolog o gyflawni'r nod o 'cyfoethogi bywydau unigolion a chymunedau drwy ein diwylliant a'n treftadaeth'. Mae Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) yn cyflawni'r ymrwymiad hwnnw.
 - 1.2 Mae'r Bil yn rhan o gyfres o ddeddfwriaeth, polisi, cyngor a chanllawiau sy'n gwneud gwelliannau pwysig i'r systemau presennol ar gyfer gwarchod amgylchedd hanesyddol Cymru a'i reoli mewn ffordd gynaliadwy.
 - 1.3 Nod Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) yw:
 - cyflwyno mwy o dryloywder ac atebolrwydd i benderfyniadau a wneir ynghylch yr amgylchedd hanesyddol.
 - gwarchod adeiladau rhestredig a henebion cofrestredig yn fwy effeithiol;
 - gwella'r systemau presennol ar gyfer gwarchod yr amgylchedd hanesyddol mewn ffordd gynaliadwy.
 - 1.4 Mae'r Bil yn creu mesurau sy'n gwneud y canlynol:
 - galluogi Gweinidogion Cymru i ddod â gwaith nas awdurdodwyd ar henebion cofrestredig i ben ar unwaith a'i gwneud yn haws i gamau gael eu cymryd yn erbyn y rhai sydd wedi difrodi neu ddinistrio henebion;
 - galluogi awdurdodau i weithredu'n gyflym os bydd adeilad rhestredig yn cael ei beryglu gan waith nas awdurdodwyd a rhoi mwy o hyblygrwydd iddynt wrth ymdrin ag adeiladau hanesyddol y mae angen gwneud gwaith arnynt ar fyrder er mwyn eu gwarchod rhag dirywio ymhellach;
 - ei gwneud yn haws i berchenogion neu ddatblygwyr greu defnyddiau newydd cynaliadwy ar gyfer adeiladau hanesyddol anrhestredig drwy lacio'r amodau ar gyfer ceisiadau am dystysgrifau imiwnedd rhag rhestru;
 - creu cofrestr statudol o barciau a gerddi hanesyddol yng Nghymru;
 - galluogi perchenogion asedau hanesyddol i negodi cytundebau partneriaeth ag awdurdodau cydsynio a fydd yn para sawl blwyddyn, gan ddileu'r angen i gyflwyno ceisiadau am gydsyniad ar gyfer gwaith tebyg dro ar ôl tro ac annog rheoli adeiladau neu henebion mewn ffordd fwy cyson a chydlynol;
 - sicrhau dyfodol mwy sefydlog i gofnodion amgylchedd hanesyddol Cymru, sy'n darparu gwybodaeth a chynghor manwl ar yr amgylchedd hanesyddol i awdurdodau cynllunio lleol a'r cyhoedd;
 - sicrhau bod strwythurau sy'n bodoli eisoes ar gyfer dynodi asedau hanesyddol o bwys cenedlaethol yn fwy agored a thryloyw drwy gyflwyno

ymgyngoriadau ffurfiol â pherchenogion a sefydlu system i adolygu penderfyniadau;

- sefydlu panel annibynnol i roi cyngor ar bolisiau a strategaethau ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol ar lefel genedlaethol yng Nghymru.

1.5 Mae'r fframwaith presennol ar gyfer gwarchod a rheoli amgylchedd hanesyddol Cymru yn seiliedig, ar y cyfan, ar ddarn o ddeddfwriaeth y DU, sef: Deddf Henebion a Mannau Archeolegol 1979 a Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990. Bydd y Bil yn diwygio'r ddwy Ddeddf hyn a hefyd yn cyflwyno dwy ddarpariaeth annibynnol sy'n ymwneud â chofnodion amgylchedd hanesyddol a sefydlu'r Panel Cyngori ar Amgylchedd Hanesyddol Cymru.

1.6 Caiff y Bil ei roi ar waith o 2016 ymlaen, ac ni ddaw rhai o'r mesurau i rym tan yn ddiweddarach yn 2017, ar ôl ymgynghori ynghylch manylion a gaiff eu nodi mewn rheoliadau. Caiff llwyddiant y Bil ei fesur mewn sawl ffordd, yn bennaf drwy addasu prosesau casglu a chofnodi data sy'n bodoli eisoes, ond hefyd drwy werthuso darpariaethau penodol.

2. Mae dyletswydd gyfreithiol arnom i ymgysylltu â phobl â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (gweler Atodiad A o'r canllawiau ar yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb) y nodir eu bod yn berthnasol i'r polisi. Pa gamau a roddwyd ar waith gennych i ymgysylltu â rhanddeiliaid, yn fewnol ac yn allanol?

2.1. Mae'r gwaith o ddatblygu Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) wedi'i lywio gan weithgarwch ymgysylltu helaeth â rhanddeiliaid yn y sector ac aelodau o'r cyhoedd ledled Cymru a dau ymgynghoriad cyhoeddus.

Ymgysylltu

2.2. Yn ystod 2012, trefnodd Cadw gyfres o ddigwyddiadau gyda gweithwyr proffesiynol ym maes treftadaeth, y trydydd sector ac aelodau o'r cyhoedd er mwyn casglu eu barn ar y systemau presennol ar gyfer cadw a rheoli'r amgylchedd hanesyddol a chael syniadau am sut y gellid gwella'r systemau hynny.

- Cynhaliwyd tri gweithdy sganio'r gorwel yng Nghaerdydd, Aberystwyth a Chyffordd Llandudno ym mis Chwefror a mis Mawrth 2012. Gyda thros 90 o gyfranogwyr, ceisiodd y gweithdai hyn nodi'r heriau y mae amgylchedd hanesyddol Cymru yn debygol o'u hwynebu yn y dyfodol ac ystyried sut y gellid eu hateb. Cyhoeddwyd ymateb i'r gweithdai hyn ar-lein yn: <http://cadw.llyw.cymru/historicenvironment/policy/historicenvironmentbill/?lang=cy>
- Trefnwyd pedwar gweithdy arbenigol ym mis Mai a mis Mehefin 2012 er mwyn ystyried materion penodol yn ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol. Daeth bron 130 o bobl i sesiynau ar y meysydd canlynol:
 - yr amgylchedd hanesyddol adeiledig (yn Aberystwyth);

- tirweddau, parciau a gerddi hanesyddol (yn Ystangbwl, Sir Benfro);
 - archeoleg (yng Nghyffordd Llandudno);
 - asedau hanesyddol o safbwynt y perchennog (yng Nghastell Ffwl-y-mwn, Bro Morgannwg).
- Daeth bron 150 o bobl i bedwaredd gynhadledd Treftadaeth, sef 'Dyfodol ein Gorffennol', a gynhaliwyd yng Nghaerdydd ym mis Gorffennaf 2012, lle y cafwyd trafodaeth fywiog rhwng rhanddeiliaid ynghylch y materion y dylai'r Bil ymdrin â hwy.
 - Trefnwyd tri digwyddiad 'Dweud eich Dweud' cyhoeddus agored gyda chymorth CyMAL: Cyngor Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Cymru a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn ystod mis Hydref a mis Tachwedd 2012. Rhoddodd y digwyddiadau hyn, a gynhaliwyd yng Nghaerfyrddin, Aberhonddu a Chonwy, gyfleoedd i sefydliadau fynegi eu barn er mwyn cyfrannu at y broses o ddatblygu'r Bil. Cymerodd mwy na 120 ran ynddynt. Drwy CCGC, cafodd gwybodaeth am y digwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd a oedd ar ffurf 'sioe deithiol' ei dosbarthu'n gyffredinol ymhlith sefydliadau yn y trydydd sector yng Nghymru.
- 2.3. Llywiodd y wybodaeth a gasglwyd yn y digwyddiadau hyn Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Amgylchedd Hanesyddol Cymru a'i 'Phrif Gynllun Gweithredu' a lluniodd y cynigion a ddatblygwyd ar gyfer Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru).

Ymgynghoriad — *Dyfodol ein gorffennol*

- 2.4. Lansiodd ymgynghoriad 12 wythnos ffurfiol, sef *Dyfodol ein gorffennol*, ar 18 Gorffennaf 2013 er mwyn cael ymatebion gan sector yr amgylchedd hanesyddol a'r cyhoedd i'r cynigion ar gyfer amgylchedd hanesyddol Cymru a oedd yn cael eu hystyried ar gyfer y Bil a mesurau cysylltiedig.
- 2.5. Gofynnodd yr ymgynghoriad yn benodol am dystiolaeth y gellid ei defnyddio yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a chroesawodd sylwadau ymatebwyr ar unrhyw faterion yn ymwneud â chydraddoldeb.
- 2.6. Cafodd yr ymgynghoriad 177 o ymatebion, yr oedd llawer ohonynt yn cynnwys sylwadau manwl a defnyddiol a oedd yn adlewyrchu pwysigrwydd yr amgylchedd hanesyddol i bobl Cymru.
- 2.7. Yn y rhan fwyaf o achosion, dangosodd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn glir bod cefnogaeth i gynigion y Bil i ymestyn gwarchodaeth lle bo'i angen, sicrhau mwy o hyblygrwydd yn y systemau rheoli presennol a gwella atebolrwydd a thryloywder. Nododd yr ymatebion hefyd fod y canllawiau gwell sy'n cael eu cynnig er mwyn helpu i reoli'r amgylchedd hanesyddol mewn ffordd gynaliadwy yr un mor bwysig i lawer o bobl â'r newidiadau arfaethedig i ddeddfwriaeth.
- 2.8. Mae adroddiad cryno ar yr ymgynghoriad a'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar gael ar-lein yn: <http://wales.gov.uk/consultations/cultureandsport/heritage-bill/?skip=1&lang=cy>

- 2.9. Trefnwyd sawl digwyddiad ymgynghori hefyd. Bu tîm Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) yn gweithio gyda thîm Dysgu Gydol Oes Cadw er mwyn datblygu a chynnal digwyddiadau ymgynghori ar gyfer myfyrwyr yn y chweched dosbarth a oedd yn astudio ar gyfer Bagloriaeth Cymru yn Abertawe a Chonwy/Cyffordd Llandudno. Cymerodd cyfanswm o 187 o fyfyrwyr o wyth ysgol ran yn y digwyddiadau, a gafodd dderbyniad da gan y bobl ifanc a'u hathrawon. Mae adroddiad ar y sesiynau hyn wedi'i gynnwys yn yr adroddiad cryno ar yr ymgynghoriad (dolen uchod).
- 2.10. Cynhaliwyd dau weithdy hefyd. Edrychodd y cyntaf, a fynychwyd gan 21 o randdeiliaid allweddol, yn fanwl ar ddyfodol y trydydd sector yng Nghymru yng ngoleuni cynigion yn yr ymgynghoriad. Mae dadansoddiad o ganlyniad y gweithdy a'r ymatebion i'r cwestiynau am y cynigion hyn a nodwyd yn yr ymgynghoriad wedi'u cynnwys yn adroddiad Hyder Consulting, sef 'Options appraisal for the future of the third sector support for the historic environment in Wales' (gweler y sail dystiolaeth isod).
- 2.11. Daeth mwy na 40 o bobl i'r ail weithdy. Rhoddodd gyfle i randdeiliaid allweddol feithrin eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r opsiynau sy'n cael eu hystyried ar gyfer dyfodol CBHC a Cadw er mwyn eu galluogi i ymateb yn gynhwysfawr i'r ymgynghoriad.

Ymgynghoriad — Diwygiadau arfaethedig i droseddau ac amddiffyniadau yn adrannau 2, 28 a 42 o Ddeddf Henebion a Mannau Archeolegol 1979

- 2.12. Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad chwe wythnos atodol, sef Diwygiadau arfaethedig i droseddau ac amddiffyniadau yn adrannau 2, 28 a 42 o Ddeddf Henebion a Mannau Archeolegol 1979, er mwyn ceisio barn ar gynigion a fyddai'n cyfyngu ar argaeledd amddiffyniad yn seiliedig ar anwybodaeth o statws neu leoliad heneb gofrestredig.
- 2.13. Cafwyd cyfanswm o 60 o ymatebion ac roedd cefnogaeth gyffredinol i'r cynigion. Gellir darllen adroddiad cryno ar yr ymgynghoriad ac ymatebion i'r ymgynghoriad ar-lein yn:
<http://wales.gov.uk/consultations/cultureandsport/proposed-amendments-to-the-criminal-offences-and-defences/?skip=1&lang=cy>
3. **Rhaid i chi seilio eich penderfyniadau ar dystiolaeth gadarn. Pa sail dystiolaeth a ddefnyddiwyd gennych? Rhestrwch ffynhonnell y dystiolaeth, e.e., Arolwg Cenedlaethol Cymru. A ystyriwch chi fod y dystiolaeth yn gryf, yn foddhaol neu'n wan ac a oes yna fylchau yn y dystiolaeth?**
 - 3.1. Defnyddiwyd nifer o seiliau tystiolaeth gwahanol i ddatblygu'r polisi ar gyfer y Bil. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi amrywiaeth eang o wybodaeth a gasglwyd gan awdurdodau lleol a phartneriaid allweddol eraill. Cedwir cryn dipyn o wybodaeth gan Cadw hefyd, fel gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru.

- 3.2. Fodd bynnag, gan fod nifer o'r cynigion yn rhai technegol, bu bylchau yn y dystiolaeth a chafwyd tystiolaeth bellach o weithgarwch ymgynghori â rhanddeiliaid a phrofiadau'r cyrff treftadaeth yn yr Alban a Lloegr.
- 3.3. At hynny, sefydlodd Cadw Grŵp Cyfeirio Allanol ar gyfer y Bil Treftadaeth, a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr rhanddeiliaid o sector yr amgylchedd hanesyddol, er mwyn gweithredu fel bwrdd seinio wrth ddatblygu'r Bil.

Ffynonellau tystiolaeth

- Y Farwnes Kay Andrews OBE, 'Defnyddio'r celfyddydau, diwylliant a threftadaeth i hybu cyfiawnder cymdeithasol yng Nghymru: Adroddiad gydag argymhellion ... i Lywodraeth Cymru' (Mawrth 2014) — <http://wales.gov.uk/topics/cultureandsport/tackling-poverty-through-culture/?skip=1&lang=cy>
- Cadw, Cronfa ddata o adeiladau rhestredig, henebion cofrestredig a pharciau a gerddi hanesyddol.
- English Heritage, 'Heritage Counts 2014' — <http://hc.english-heritage.org.uk/National-Report/>
- Cronfa Dreftadaeth y Loteri, 'Values and benefits of heritage: A research review' (Rhagfyr 2013) <http://www.hlf.org.uk/values-and-benefits-heritage>
Dyma'r diweddaraf mewn cyfres o adolygiadau blynyddol sy'n casglu gwybodaeth allweddol o amrywiaeth o adroddiadau allanol sy'n berthnasol i'r sector treftadaeth.
- Llywodraeth Cymru: Ystadegau i Gymru, 'National Survey for Wales, 2013/14: Internet Use' (Medi 2014) — <http://wales.gov.uk/statistics-and-research/national-survey/?lang=en>

Ymchwil

- 3.4. Er mwyn cael tystiolaeth fanylach er mwyn helpu i lunio polisi ar gyfer y Bil a'r gyfres o fesurau a fydd yn ei ategu, comisiynwyd y pedair astudiaeth ymchwil ganlynol.
- Ove Arup & Partners Ltd, 'Heritage Bill for Wales: A research project to investigate three of the emerging topics' (cytundebau partneriaeth treftadaeth, ardaloedd hanesyddol a rhestrau lleol)
 - Hyder Consulting (UK) Ltd, 'Heritage Bill for Wales: Options for the Delivery of Local Authority Historic Environment Conservation Services'
 - Hyder Consulting (UK) Ltd, 'Refining the Listed Building Consent Process'
 - Hyder Consulting (UK) Ltd, 'An Options Appraisal for the Future of Third Sector Support for the Historic Environment of Wales'
- 3.5. Mae pob un o'r pedwar adroddiad ymchwil hyn ar gael ar-lein yn: <http://cadw.wales.gov.uk/historicenvironment/policy/towardsaheritagebillforwales/?lang=en>.

4.1 Ydych chi'n credu y bydd y polisi / penderfyniad / arfer hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl oherwydd eu hoed?

Oed	Cadarnhaol	Negyddol	Dim / Dibwys	Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai effeithio?
Hyd at 18 oed	X			Drwy warchod amgylchedd hanesyddol Cymru yn well a'i reoli mewn ffordd fwy cynaliadwy bydd yn bosibl sicrhau ei fod yn parhau i ddod â llawer o fanteision i bobl Cymru nawr ac yn y dyfodol. Mae pobl yn byw'n hirach ac oherwydd hynny bydd pobl ifanc Cymru yn cael y budd mwyaf posibl o'r polisi hwn, ond fel arall ni fydd yn effeithio ar unrhyw grŵp oedran penodol yn fwy nag y mae'n effeithio ar un arall. Cynigir y dylid sefydlu panel cynghori annibynnol ar yr amgylchedd hanesyddol i roi cyngor i Weinidogion Cymru ar gadwraeth, gwybodaeth ac ymgysylltu â'r cyhoedd. Rhagwelir y bydd ei wybodaeth yn cwmpasu addysg a dysgu gydol oes, sgiliau a mynediad. Er bod y materion hyn yn effeithio ar bobl o bob oedran, maent yn debygol o fod yn arbennig o berthnasol i bobl ifanc ac o gael effeithiau cadarnhaol ar eu cyfer. Drwy fynnu bod awdurdodau lleol yn creu ac yn cynnal cofnodion amgylchedd hanesyddol (CAHau), sicrhau y byddant yn goroesi yn yr hirdymor. Er y bydd manteision cyffredinol i bobl o bob oedran, gall manteision cadarnhaol fod yn fwy amlwg i bobl ifanc gan fod CAHau yn aml yn darparu deunyddiau addysgol ac yn cynnal rhaglenni allgymorth addysgol gweithredol.

18–50 oed			X	Bydd gwarchod yr amgylchedd hanesyddol a'i reoli mewn ffordd gynaliadwy yn dod â manteision cyffredinol i bobl o bob oedran. Bydd darpariaethau'r Bil Treftadaeth yr un mor gymwys i bob unigolyn sydd wedi dod i'w lawn oed, waeth beth fo'i oedran gwirioneddol. Nid oes unrhyw dystiolaeth i ddangos bod grwpiau oedran penodol yn fwy tebygol o fod yn berchen ar asedau hanesyddol neu gyflawni gweithgareddau sy'n mynd yn groes i ddarpariaethau presennol neu arfaethedig.
Dros 50 oed			X	Bydd gwarchod yr amgylchedd hanesyddol a'i reoli mewn ffordd gynaliadwy yn dod â manteision cyffredinol i bobl o bob oedran. Bydd darpariaethau'r Bil Treftadaeth yr un mor gymwys i bob unigolyn sydd wedi dod i'w lawn oed, waeth beth fo'i oedran gwirioneddol. Nid oes unrhyw dystiolaeth i ddangos bod grwpiau oedran penodol yn fwy tebygol o fod yn berchen ar asedau hanesyddol neu gyflawni gweithgareddau sy'n mynd yn groes i ddarpariaethau presennol neu arfaethedig. Mae rhai o ddarpariaethau'r Bil (er enghraifft, y rhai sy'n ymwneud â'r gofrestr statudol o barciau a gerddi hanesyddol neu'r troseddau ac amddiffyniadau diwygiedig yn Neddf Henebion a Mannau Archeolegol 1979) yn tybio bod gwybodaeth awdurdodol am leoliad a maint asedau hanesyddol ar gael yn hawdd drwy adnodd newydd ar-lein ar gyfer asedau hanesyddol dynodedig a chofrestredig a gaiff ei lansio gan Cadw mewn cydgysylltiad â'r Bil. Yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru 2013–14, nid oedd 56% o'r bobl hynny 65 oed a throsodd yn defnyddio'r rhyngwrwyd ar y pryd o gymharu â dim ond 10% o'r rhai rhwng 18 a 64 oed. Felly, bydd darparu gwybodaeth ar-lein

				yn rhoi pobl hŷn o dan rywfaent o anfantais anghymesur. Fodd bynnag, mae polisi cynhwysiant digidol Llywodraeth Cymru, a gyflawnir drwy raglenni megis Cymunedau 2.0, yn ymdrin yn benodol â'r angen i leihau allgáu digidol ymhlith pobl hŷn yng Nghymru. Bydd mentrau o'r fath, ynghyd â phrosesau demograffig naturiol, yn arwain at ostyngiad graddol yn nifer y bobl hŷn sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol. At hynny, bydd Cadw yn darparu gwybodaeth am asedau hanesyddol dynodedig a chofrestredig ar ffurf argraffedig neu mewn fformatau eraill ar gais am ddim.
--	--	--	--	---

4.2 Oherwydd eu bod yn anabl?

Nam	Cadarnhaol	Negyddol	Dim / Dibwys	Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai effeithio?
Nam ar y golwg			X	Ar draws pob un o'r nodweddion gwarchodedig hyn, bydd y corff cyngori newydd yn hyrwyddo mynediad yn y cyngor a roddant i Weinidogion Cymru. Ymrwymodd y Rhaglen Lywodraethu i 'mynd ymhellach byth i gyflwyno cronfa fwy cynrychioliadol o wneuthurwyr penderfyniadau yng Nghymru.' Cydnabu Cynllun ac Amcanion Cydraddoldeb Strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2012-2016 hefyd bwysigrwydd ehangu cyfranogiad yn Amcan 7, sef: 'Gwella gweithgarwch ymgysylltu â grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a sicrhau eu bod yn cymryd mwy o ran mewn penodiadau cyhoeddus'. Ym mis Awst 2013, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gynllun gweithredu: 'Cynyddu'r nifer o
Nam ar y clyw			X	
Anabledd corfforol			X	
Anabledd dysgu			X	
Problem iechyd meddwl			X	
Namau eraill			X	

				fenywod a grwpiau eraill heb gynrychiolaeth ddigonol mewn penodiadau cyhoeddus yng Nghymru'. Mae'r cynllun gweithredu yn nodi'n benodol bod grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli yn cynnwys 'y rheiny sydd â nodweddion gwarchodedig a'r rheiny o grwpiau economaidd-gymdeithasol is'. Caiff y camau gweithredu manwl yn y cynllun, yn ogystal ag arfer da a nodwyd, eu dilyn er mwyn sicrhau y caiff ymdrechion cadarnhaol eu gwneud i recriwtio pobl â nodweddion gwarchodedig i'r panel cynghori. Efallai y bydd dewisiadau amgen i ysgrifennu ar gyfer gweinyddu cydsyniad heneb gofrestredig o fudd i rai grwpiau â nodweddion gwarchodedig. Efallai y bydd rhai grwpiau o dan anfantais os na allant fanteisio ar yr adnodd newydd ar-lein ar gyfer asedau hanesyddol dynodedig a chofrestredig a gaiff ei lansio gan Cadw mewn cydgysylltiad â'r Bil. Rhoddir gwybodaeth sy'n berthnasol i ddarpariaethau'r Bil i unigolion mewn fformat priodol a hygyrch ar gais ac am ddim.
--	--	--	--	---

4.3 Oherwydd eu rhyw (dyn neu ddynes)?

Rhyw	Cadarnhaol	Negyddol	Dim / Dibwys	Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai effeithio?
Gwryw			X	Ni fydd y Bil yn effeithio'n wahanol ar fenywod na gwrywod ac ni fydd yn effeithio ar allu Llywodraeth Cymru i gydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb gyffredinol y Sector Cyhoeddus. Ymrwymodd y Rhaglen Lywodraethu i 'ceisio cyflwyno cwtâu fel y rhai yn Norwy ar gyfer penodiadau mewn cyrff cyhoeddus yng Nghymru, gan sicrhau bod o leiaf 40 y cant o'r penodiadau yn
Benyw			X	

				cael eu rhoi i fenywod.' Cydnabu Cynllun ac Amcanion Cydraddoldeb Strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2012-2016 hefyd bwysigrwydd ehangu cyfranogiad yn Amcan 7, sef: 'Gwella gweithgarwch ymgysylltu â grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a sicrhau eu bod yn cymryd mwy o ran mewn penodiadau cyhoeddus'. Ym mis Awst 2013, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gynllun gweithredu: 'Cynyddu nifer y penodiadau cyhoeddus sy'n cael eu llenwi gan fenywod ac aelodau o grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli yng Nghymru'. Caiff y camau gweithredu manwl yn y cynllun, yn ogystal ag arfer da a nodwyd, eu dilyn er mwyn sicrhau y caiff ymdrechion cadarnhaol eu gwneud i recriwtio pobl â nodweddion gwarchodedig i'r panel cynghori.
--	--	--	--	--

4.4 Oherwydd eu bod yn drawsrywiol?

Trawsrywiol	Cadarnhaol	Negyddol	Dim / Dibwys	Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai effeithio?
			X	Gwneir penodiadau i'r panel cynghori yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru ar gynyddu nifer yr aelodau o grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli.

4.5 Oherwydd eu priodas neu bartneriaeth sifil?

Priodas a Phartneriaeth Sifil	Cadarnhaol	Negyddol	Dim / Dibwys	Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai effeithio?
Priodas			X	Ni fydd y Bil yn effeithio'n wahanol ar y rhai sy'n briod neu mewn partneriaeth sifil ac ni fydd yn effeithio ar allu Llywodraeth Cymru i gydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb gyffredinol y Sector Cyhoeddus.
Partneriaeth Sifil			X	

4.6 Oherwydd eu beichiogrwydd neu famolaeth?

Beichiogrwydd a Mamolaeth	Cadarnhaol	Negyddol	Dim / Dibwys	Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai effeithio?
Beichiogrwydd			X	Ni fydd y Bil yn effeithio'n wahanol ar y rhai sy'n feichiog neu'r rhai â phlant ac ni fydd yn effeithio ar allu Llywodraeth Cymru i gydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb gyffredinol y Sector Cyhoeddus.
Mamolaeth (y cyfnod ar ôl geni)			X	

4.7 Oherwydd eu hil?

Hil	Cadarnhaol	Negyddol	Dim / Dibwys	Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai effeithio?
Pobl o leiafrif ethnig (e.e. Asiaidd, Du)			X	Bydd angen gwneud ymdrech i sicrhau bod gan grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli gynrychiolaeth ddigonol ar y bwrdd cynghori. Er na fydd yr un o ddarpariaethau'r Bil yn cael effaith uniongyrchol oherwydd hil unigolyn, os na fydd aelodau o leiafrifoedd ethnig yn gallu siarad Cymraeg neu Saesneg yn gwbl rugl, efallai y byddant yn ei chael hi'n anodd ymdrin â rhai o'r gweithdrefnau sy'n cael eu cynnig - e.e. cytundebau partneriaeth treftadaeth — neu gael gafael ar wybodaeth awdurdodol a ddarperir ar-lein. Mae sipsiwn a theithwyr yn debygol o wneud llai o ddefnydd o'r rhyngwrdd na'r cyfartaledd. Felly, efallai y byddant o dan anfantais o ran cael gafael ar wybodaeth awdurdodol ar-lein am safleoedd dynodedig a chofrestredig. Gall sgiliau llythrennedd a chyrhaeddiad addysgol isel hefyd eu hatal rhag
Tarddiad Cenedlaethol (e.e. Cymreig, Seisnig)			X	
Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid			X	
Sipsiwn a Theithwyr			X	
Mudwyr			X	
Eraill			X	

				defnyddio prosesau a chael gafael ar wybodaeth (gweler 'Impact of universal credit and welfare reforms on the Gypsy and Traveller communities' (Mai 2013), tud. 11). Fodd bynnag, bydd Cadw yn darparu gwybodaeth sy'n berthnasol i ddarpariaethau'r Bil mewn fformat priodol a hygyrch ar gais ac am ddim.
--	--	--	--	---

4.8 Oherwydd eu crefydd a'u cred neu ddiffyg cred?

Crefydd a chred neu ddiffyg cred	Cadarnhaol	Negyddol	Dim / Dibwys	Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai effeithio?
Gwahanol grwpiau crefyddol yn cynnwys Mwslimiaid, Iddewon, Cristnogion, Sikhiaid, Bwdhyddion, Hindŵiaid, Eraill (nodwch)			X	Ni fydd y Bil yn effeithio'n wahanol ar unrhyw grwpiau â chrefydd neu gred benodol ac ni fydd yn effeithio ar allu Llywodraeth Cymru i gydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb gyffredinol y Sector Cyhoeddus.
Cred e.e. Dyneiddwyr			X	
Diffyg cred			X	

4.9 Oherwydd eu cyfeiriadedd rhywiol?

Cyfeiriadedd rhywiol	Cadarnhaol	Negyddol	Dim / Dibwys	Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai effeithio?
Dynion hoyw			X	Ni fydd y Bil yn effeithio'n wahanol ar unigolion sy'n ddynion hoyw, yn lesbiaidd neu'n ddeurywiol ac ni fydd yn effeithio ar allu Llywodraeth Cymru i gydymffurfio â Dyletswydd
Lesbiaid			X	
Deurywiol			X	

				Cydraddoldeb gyffredinol y Sector Cyhoeddus. Caiff y camau gweithredu cadarnhaol a nodwyd uchod ar gyfer recriwtio aelodau o'r panel cynghori eu dilyn er mwyn annog aelodau o grwpiau â nodweddion gwarchodedig i gymryd rhan.
--	--	--	--	---

4.10 A ydych chi'n credu y bydd y polisi hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar hawliau dynol pobl? *Gweler pwynt 1.4 o Atodiad A yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb – Canllawiau ar ddod o hyd i wybodaeth bellach am Hawliau Dynol.*

Mae holl ddarpariaethau'r Bil wedi'u llunio er mwyn cydymffurfio â'r Ddeddf Hawliau Dynol ac maent wedi'u dadansoddi'n drylwyr er mwyn cadarnhau eu bod yn cydymffurfio â'r Ddeddf honno. Ym mhob achos lle mae effeithiau negyddol wedi'u nodi, dim ond yn anaml y byddant yn digwydd neu byddant yn gyfyngedig iawn eu cwmipas a bydd y manteision ehangach a sicrhair gan y ddeddfwriaeth yn drech na hwy.

Cadarnhaol	Negyddol	Dim / Dibwys	Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai effeithio?
		X	Gellid ystyried bod dileu hawl awtomatig i gael gwrandawriad ynglŷn â cheisiadau am gydsyniad heneb gofrestredig yn cael effaith negyddol ar hawliau dynol a'i fod yn torri, o bosibl, Erthygl 6 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol: 'Yr hawl i brawf teg'. Fodd bynnag, yn ymarferol, dim ond yn achlysurol y mae ymgeiswyr yn galw ar yr hawl hon; fe'i harferwyd ddiwethaf yng Nghymru yn 2003. At hynny, mae'r Bil yn cynnig y dylid caniatáu i Weinidogion Cymru bennu'r dull mwyaf addas o benderfynu ar y cais ac nid yw'n atal ymchwiliad na gwrandawriad rhag cael eu cynnal.
		X	Byddai'r pŵer i fynd ar safle heb ganiatâd y perchennog er mwyn gwneud gwaith cloddio archeolegol ar heneb gofrestredig sydd mewn perygl uniongyrchol o gael ei ddifrodi neu ei ddinistrio yn cael effaith negyddol ar hawliau dynol. Fodd bynnag, dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y câi'r pŵer hwn ei arfer a byddai'n gam gweithredu cymesur a gyfiawnheid gan y perygl uniongyrchol y câi gwybodaeth archeolegol unigryw ei cholli a'r ffaith nad yw Cadw wedi llwyddo i gysylltu â'r

		X	perchennog / meddiannydd. Byddai ymestyn y diffiniad i gynnwys heneb gofrestredig yn gosod cyfyngiadau newydd ar rai perchenogion, ond cyfyngir ar nifer y safleoedd a'r mathau o safleoedd drwy ganllawiau. Bydd cofrestru safle yn cyfyngu rhywfaint ar ryddid perchennog i fwynhau'r eiddo, ond bydd angen i'r safle fodloni meini prawf clir o ran pwysigrwydd cenedlaethol er mwyn bod yn gymwys i gael ei warchod. At hynny, ni fydd dynodi safle yn tarfu ar ei ddefnydd presennol. Rhagwelir mai dim ond tua 30 o safleoedd o bwys cenedlaethol a fydd yn gymwys i gael eu cofrestru o dan y diffiniad newydd. O dan ddarpariaethau a gynigir mewn mannau eraill yn y Bil, ymgynghorir yn ffurfiol â'r perchennog / meddiannydd ynghylch y penderfyniad i gofrestru safle o dan y diffiniad estynedig a bydd ganddo hawl ffurfiol i geisio adolygiad o'r penderfyniad i'w gofrestru.
		X	Gellid dehongli bod ymestyn gwaith brys i gynnwys adeiladau a feddiennir yn tresmasu ar hawliau dynol a nodir yn Erthygl 8 — 'Yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol, cartrefi a gohebiaeth' — a Phrotocol 1, Erthygl 1 — 'Yr hawl i fwynhau eiddo mewn heddwch' — o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Mae'r ddarpariaeth wedi'i llunio'n fwriadol er mwyn hepgor unrhyw waith a allai yn afresymol darfu ar ddefnydd preswyl er mwyn osgoi torri Erthygl 8. Dengys data a gafwyd o Gronfa Ddata Cyflwr Adeiladau Rhestredig Cadw (2011) fod 72% o'r adeiladau amaethyddol sydd mewn perygl yn cael eu meddiannu'n rhannol; fel arfer ysguboriau, stablau neu resi o adeiladau sy'n atodol i'r prif ffermdy yw'r rhain. Mae canran yr adeiladau domestig wedi'u rhannol feddiannu sydd mewn perygl yn is na 34%, ond mae'n dal i fod yn ganran sylweddol. Mae'r adeiladau hyn yn aml yn '..farmhouses or other rural buildings which are falling out of use. 'In some areas of Wales there is also an issue with the poor maintenance of second/holiday homes.' Ymhlith y cynigion yn yr ymgynghoriad, <i>Dyfodol ein gorffennol</i>, roedd un i ymestyn gwaith brys i gynnwys hysbysiadau i adeiladau a feddiennir nad ydynt yn cael eu defnyddio at ddibenion preswyl. Roedd 84 y cant o'r rhai a fynegodd

X			farn ar y cynnig o'i blaid, gyda llawer yn cydnabod ei fod yn mynd i'r afael â bwlbh clir yn y ddeddfwriaeth bresennol. Roedd rhai o blaid ei ymestyn i gynnwys adeiladau sy'n cael eu defnyddio at ddibenion preswyl. Oherwydd y gefnogaeth a ddangoswyd i'r cynnig a'r gyfran sylweddol o adeiladau mewn perygl sydd wedi'u rhannol feddiannu, mae ymestyn gwaith brys i gynnwys hysbysiadau i adeiladau a feddiennir, os na fydd yn tarfu ar ddefnydd preswyl, yn ymateb cymesur i'r gofyniad cyfreithiol i warchod adeiladau rhestredig. Felly, nid yw'n anghyson â'r hawl gyfyngedig a nodir ym Mhrotocol 1, Erthygl 1 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. • Byddai cyflwyno systemau ffurfiol ar gyfer ymgynghori ynghylch penderfyniadau i ddynodi asedau hanesyddol a'u hadolygu yn cael effaith gadarnhaol ar hawliau dynol, drwy sicrhau mwy o gydymffurfiaeth ag Erthygl 6 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. 'Yr hawl i brawf teg'.
---	--	--	---

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb – Rhan 2

1. Gan adeiladu ar y dystiolaeth a gasgloch ac a ystyriwyd gennych yn Rhan 1, ystyriwch y canlynol:

1.1 Sut y gallai, neu sut y mae'r polisi'n helpu i wella / hyrwyddo cyfle cyfartal?

Er enghraifft, mesurau cadarnhaol a luniwyd i fynd i'r afael ag anfantais a chyrraedd gwahanol gymunedau neu grwpiau gwarchodedig?

1.2 Sut y gallai / sut y mae'r polisi / penderfyniad yn helpu i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu neu erledigaeth?

1.3 Sut y gallai / sut y mae'r polisi'n effeithio ar wella / hyrwyddo cysylltiadau da a chydlyniant cymunedol ehangach?

2. Cryfhau'r polisi

2.1 Os yw'r polisi'n debygol o gael effaith negyddol (niweidiol) ar unrhyw un o'r grwpiau gwarchodedig neu ar gysylltiadau da, beth yw'r rhesymau am hyn?

Pa newidiadau / camau ymarferol allai helpu i leihau neu gael gwared ar unrhyw effeithiau negyddol a nodwyd yn Rhan 1?

2.2 Os na roddir unrhyw gamau ar waith i ddileu neu liniaru effaith negyddol / niweidiol, rhwch resymau pam.

(Cofiwch, os ydych chi wedi canfod gwahaniaethu anghyfreithlon (uniongyrchol neu bosibl) o ganlyniad i'r polisi, rhaid newid neu adolygu'r polisi.)

3. Monitro, gwerthuso ac adolygu

Sut yr ewch chi ati i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi?

Rhestrwch fanylion unrhyw waith dilynol sy'n mynd i gael ei gyflawni mewn perthynas â'r polisi (e.e. ymgynghoriadau, monitro penodol ac ati).

Un o nodau'r Panel Cynggori newydd ar Amgylchedd Hanesyddol Cymru yw rhoi cyngor arbenigol, annibynnol i Weinidogion Cymru ar amrywiaeth o faterion sy'n ymwneud â llunio, datblygu a gweithredu polisiau a strategaethau sy'n ymwneud ag amgylchedd hanesyddol Cymru. Mae'r Bil, fel y newid sylweddol cyntaf i ddeddfwriaeth treftadaeth mewn 25 o flynyddoedd, yn elfen ganolog o bolisi Llywodraeth Cymru ar yr amgylchedd hanesyddol. Er mai mater i'r panel fydd penderfynu ar union gynnwys ei raglen waith ei hun, mae'n anochel y bydd yn rhoi sylw manwl i effaith y Bil. Bydd y panel yn gallu defnyddio data a gasglwyd gan swyddogion Llywodraeth Cymru, ond bydd yn rhydd i geisio rhagor o wybodaeth neu wneud ymchwil fel y gwêl yn dda.

Bydd canlyniadau pob asesiad o effaith lle mae'r effaith yn sylweddol yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

4. Datganiad

Nid yw'r polisi'n effeithio'n sylweddol ar faterion cydraddoldeb.

Dyddiad Adolygu: 1 Mehefin 2018

Caiff yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) ei adolygu yn sgil unrhyw ddiwygiadau a wneir wrth graffu ar y Bil ac unwaith eto ar ôl iddo gael ei basio. Cynhelir yr adolygiad llawn o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb tua dwy flynedd ar ôl i'r Bil gael ei basio, pan ddylai digon o ddata fod ar gael.